



Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Cynnal Eisteddfodau Diogel

** Canllawiau Covid-19:
Awgrymiadau ar sut i drefnu a pharatoi ar gyfer
cynnal eisteddfodau mewn lleoliadau cyhoeddus*



www.steddfota.org

CYMRAG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Covid-19: Cynnal Eisteddfod

Mae pandemig Covid-19 wedi, ac yn dal i effeithio ar fywydau pawb dros y byd i gyd, ac yn anffodus, mae'r sefyllfa wedi cael cryn effaith ar y byd Eisteddfodol dros Gymru gyfan ers mis Mawrth 2020.

Fel Cymdeithas, rydym yn awyddus iawn bod eisteddfodau yn aildechrau cyn gynted â phosib – ond yn fwy na dim eu bod yn cael eu cynnal mewn amgylchedd diogel.

Mae'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (C.g.G.C.) wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer sut i baratoi ar gyfer ailagor Canolfannau Cymunedol yng Nghymru – ac mae rhain yn ddilys ar gyfer yr adeiladau hynny lle mae eisteddfodau fel arfer yn cael eu cynnal (h.y. neuaddau pentre, capeli, ysgolion, canolfannau hamdden, theatrau a.y.y.b.).

Mae'n rhaid pwysleisio mai cyfrifoldeb y Canolfannau hynny yw i wneud y paratodau sy'n sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel i'w ddefnyddio a'i fod yn dilyn canllawiau Covid-19.

Sut mae hyn yn effeithio ar drefnwyr eisteddfodau lleol?

RHAID PWYSLEISIO MAI AWGRYMIADAU YW RHAIN. MAE'R SEFYLLFA YN NEWID YN RHEOLAIDD, FELLY CADWCH LYGAD AR WEFAN LLYWODRAETH CYMRU

1. Llogi'r lleoliad

- Rhaid cadarnhau bod swyddogion y lleoliad yn dilyn y canllawiau yn ôl argymhellion Llywodraeth Cymru.
- Rhaid bod y swyddogion yn caniatáu i'r lleoliad gael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal yr eisteddfod.
- Yn sgil y coronafeirws dylai swyddogion y lleoliad roi amodau newydd i bobl sy'n llogi'r adeilad, yn ysgrifenedig ac ynghlwm wrth y cytundeb llogi arferol.
- Rhaid i chi, fel llogwyr dderbyn yr amodau newydd yn ysgrifenedig (trwy lofnod).

2. Cost llogi

Ar ôl ailagor unrhyw lleoliad, mae'n debyg bydd cyfyngiad ar y nifer bydd yn medru mynychu unrhyw ddigwyddiad.

O ran digwyddiad fel eisteddfod, golyga hyn bydd yr incwm wrth y drws yn dipyn is. Yn ogystal, gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol mae perchnogion yr adeilad yn gorfod cyflawni, mae'n debygol iawn bydd y gost o logi'r lleoliad yn uwch na'r arfer.

Felly, mae'n rhaid ystyried ydy hi'n werth cynnal yr eisteddfod, yn ariannol, o ystyried yr holl gyfyngiadau fydd yn bodoli pan fydd y canolfannau yn agor?

Ydy hi'n well aros nes bod y cyfyngiadau yn llacio NEU ystyried lleoliad arall NEU gynnal eisteddfod rithiol?

3. Asesiad risg

Yn ogystal â swyddogion y lleoliad, mae'n rhaid i gynrychiolydd o bwyllgor yr eisteddfod baratoi Asesiad Risg Covid-19 penodol yn ychwanegol i'r Asesiad Risg arferol.

Mae'n bwysig hefyd bod y ddau sefydliad yn enwebu person fel Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Byddai hyn yn cynnwys y penderfyniad a oes angen i unrhyw un wisgo gorchuddion wyneb yn ystod yr eisteddfod.

4. Yswiriant

Mae'n bwysig iawn rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant am eich gweithgareddau. Bydd eich cwmni yswiriant yn gofyn i chi ddilyn a chydymffurfio â'r holl argymhellion a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'r ganolfan / lleoliad hysbysu'u cwmni yswiriant eu bod yn aildechrau gwasanaethau, a thrafod unrhyw ofynion newydd y mae'n rhaid eu hystyried er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u polisi yswiriant.

Byddem yn awgrymu y dylai swyddogion yr eisteddfod gydweithio gyda'r lleoliad er mwyn trafod yswiriant.

5. Hylendid

Mae'n rhaid i'r ddau sefydliad gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am hylendid cyn ac yn ystod yr eisteddfod. Gall hyn gynnwys :-

- Glanhau'r lleoliad CYN yr eisteddfod
- Paratoi cyflenwad o gynnyrch glanhau a hylif diheintio dwylo a sebon / tyweli yn y toiledau
- Glanhau'r toiledau yn rheolaidd yn ystod yr eisteddfod
- Glanhau'r dolenni drysau yn rheolaidd
- Glanhau'r piano ar gyfer y cyfeilyddion
- Glanhau'r seddi wrth i'r cystadleuwyr a'r gynulleidfa newid drwy gydol y dydd (yn y lleoliad ac ar y llwyfan)
- Glanhau'r lleoliad rhwng cyfarfodydd prynhawn a nos (os yn briodol) ac hefyd ar ddiwedd yr eisteddfod

6. Pris mynediad

Lle bo modd, dylech geisio cymryd archebion ar-lein neu dros y ffôn. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylech osgoi trin arian parod ac ystyried taliadau digyswllt neu gerdyn.

Os oes rhaid i chi barhau i gymryd arian parod, yna dylid gwisgo menig wrth drin arian.

7. Profi, Olrhain a Diogelu

Rhaid penderfynu a oes angen paratoi cyfleuster ar gyfer casglu manylion cyswllt pawb sy'n mynychu'r eisteddfod.

Dylid cyhoeddi hysbyseb preifatrwydd er diben Deddf Diogelu Data (GDPR).

Os oes angen help arnoch i ddrafftio hysbyseb preifatrwydd neu am ragor o wybodaeth, mae ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (I.C.O.)

8. Lluniaeth

Rhoi ystyriaeth â yw'n bosib i ddarparu bwyd a diod mewn eisteddfod

9. Arwyddion diogelwch a chadw pellter corfforol

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu nifer o arwyddion dwyieithog a allai fod yn ddefnyddiol – rhai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

10. Am fwy o wybodaeth a chyngor gweler:-

Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/coronafeirws>

Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/>

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru <https://wcva.cymru/cy/datganiad-ar-y-coronafeirws/>

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/covid-19-canllawiaur-awdurdod-gweithredol-iechyd-diogelwch>

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (I.C.O.)

<https://ico.org.uk/about-the-ico/who-we-are/wales-office/wales-officewelsh/>

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru aled@steddfota.org



Paratowyd gan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

29.10.2020